

Diolchgarwch 2019

Nodiadau pregeth

Tymor i
newid

Cyflwyniad

Mae'r nodiadau pregeth hyn ar gyfer gwasanaeth Diolchgarwch/Tymor i Newid wedi eu seilio ar 1 Brenhinoedd 21 a Luc 16:1-13. Gall yr adrannau hyn ein helpu i fyfyrto ar sut y mae dosbarth cymdeithasol a safle yn cael effaith sylweddol ar ffyniant dynol, ac yn ein hysbrydoli a'n herio mewn tymor o newid.

Mae pwyntiau pregeth hefyd ar gael yma, wedi eu seilio ar Dymor y Greadigaeth o'r Llithiadur Cyffredin Diwygiedig. Eleni, mae'n canolbwyntio ar fioamrywiaeth – rhywbeth y mae prosiect EcoVeg yn yr India yn ei hybu, gan ei fod yn gweithio mewn cytgord gyda'r ddaear.

Safle fel grym?

- Mae'r Brenin Ahab (1 Bren 21) a'r dyn cyfoethog (Luc 16) yn dal y safle uchaf yn y gymdeithas, y naill oherwydd ei statws frenhinol, a'r llall oherwydd ei gyfoeth. Yn yr adrannau hyn, eu geiriau sy'n cychwyn nifer o ddiwyddiadau, ond cyfranwyr goddefol ydyn nhw eu hunain.
- Mae gan Jesebel a'r rheolwr anonest safleoedd tebyg i 'reolwyr canolig': hwy sy'n ymddangos fel y bobl fwyaf gweithredol a dylanwadol wrth arwain y sefyllfa ymlaen.
- Caiff Naboth a dyledwyr y meistr eu heffeithio gan weithredoedd y bobl fwyaf pwerus yn y gymdeithas, a phrofant ganlyniadau gwahanol iawn.
- Mae Naboth yn cael ei daflu allan o'i dir: profiad y mae llawer yn ei adnabod o amgylch y byd. Daw'r dyledwyr, fodd bynnag, i berthynas mwy cydradd gyda'r rhai a ystyrir yn uwch na hwynt.

Chwalu rhwystrau gwaharddiad

- Heddiw yn India, mae miliynau o bobl yn cael eu gwahardd o gymdeithas oherwydd y system cast; o'u genedigaeth maent yn byw gyda rhagfarn a gwaharddiad.

- Dalit yw un o bob pump yn India, pobl a ystyrir yn alltudion. Nid oes gan aelodau o'r gymuned hon, a merched yn enwedig, yr hawliau i sicrhau dyfodol cynaliadwy, annibynnol iddynt eu hunain.
- Prin iawn yw'r rhai sy berchen tir, ond maent yn aml yn gweithio oriau hir yn gwneud gwaith isel mewn caeau sy'n perthyn i eraill. Nid yn unig mae'n waith caled iawn, ond mae hefyd yn eu hamlygu i gemegau amaethyddol peryglus. Dyma waharddiad y mae partner Cymorth Cristnogol SAAL yn benderfynol o'i ddileu.

Parchu'r tir

- Yn ei enw ef oedd y tir: Naboth y Jesreeliad. Roedd Jesreel yn ffrwythlon a gwyrdd – yn debyg iawn i'r hyn oedd yn Tamil Nadu ar un adeg.
- Roedd i Ahab ofyn i Naboth adael ei gartref hynafiadol yn dangos amarch mawr i'r gyfraith ac i'r tir. Dywed Lefiticus 25:23 na ddylai Israeliaid werthu eu hetifeddiaeth. Cyn belled ag yr oedd Naboth mewn cwestiwn, roedd y tir yn perthyn i Dduw, oedd wedi ei ymddiried i hynafiaid Naboth.
- Nid oedd Naboth heb rym. Roedd ei barch at Dduw ac at y tir yn rhoi nerth ac argyhoeddiad iddo allu gwrthsefyll Ahab - ond ar y boen o golli ei fywyd. Mae amddiffynwyr hawliau dynol a hawliau tir yn parhau i wynebu'r un ffawd dreisgar heddiw.

- Mae parch Naboth i'r tir yn werth y mae ffermio cemegol modern wedi ei gollu. Fel mae un ffermwr o Tamil Nadu yn egluro, 'Mae ffermio cemegol yn eich gwneud chi'n ddibynol, mae'n difrodi'r pridd a'r amgylchedd.'
- Da fyddai inni ddilyn Naboth a deall mai Duw yw perchennog y tir - ac mai ei stiwardio am dymor ydym ni. Fel y mae Wendell Berry yn ein herio: 'Os ydym yn credu, fel y cynifer ohonom yn proffesu, mai eiddo'r Arglwydd yw'r Ddaear ac yn llawn o'i ogoniant, sut allem ni ddifrodi unrhyw ran ohono?'
- Mae ffermio cemegol hefyd yn amharu ar bobl. Mae ffermwyr yn Tamil Nadu yn disgrifio'r effaith andwyol y credant fod ffermio cemegol wedi ei gael ar eu hiechyd, yn cynnwys heintiau'r stumog a'r groth, yr ysgyfaint a'r croen.
- Dyma pam fod partner Cymorth Cristnogol SAAL yn rhedeg prosiect EcoVeg yn India. Mae'n addysgu pobl ar fanteision cynhyrchu di-gemeg, ac yn rhoi hyfforddiant ar ddulliau organig a sgiliau busnes.
- Mae'r angen am fwyd naturiol, maethlon yn tyfu. Nid yn unig ei fod yn well ar gyfer y tir a'r rhai sy'n ei dyfu, mae'r prosiect hefyd yn rhoi incwm i gymunedau gwaharddedig India. Mae EcoVeg wedi cyrraedd bron i 5,000 ffermwr. Mae dros draean ohonynt o gymuned a gaiff ei gwahardd; bron i hanner yn ferched. Mae'n newid bywydau llawer er gwell!

Lle cyfiawn mewn cymdeithas

- Mae'r rheolwr wedi derbyn ei ffawd haeddiannol: cael ei ddiswyddo am wastraffu eiddo'r dyn cyfoethog.
- Mae'n penderfynu gweithredu er mwyn ennill ffrindiau a dylanwadu pobl trwy ddileu eu dyled, neu o leiaf ei leihau - efallai i'r maint yr oedd i fod yn y lle cyntaf. Gobeithia y bydd hyn yn ddigon iddynt fod yn garedig gydag ef pan fydd wedi colli'r cwbl.
- Mae Iesu'n dangos y gellid defnyddio cyfoeth yn wahanol. Fel y tir, i Dduw y perthyn a dylid ei ddefnyddio i bwrpas ewyllys Duw. Mae angen i gymdeithas osod arian yn ei le priodol.
- Yn yr achos hwn, gellid ei ddefnyddio i wyrdroi hierarchi cymdeithasol a chreu perthnasau newydd, mwy cydradd. 'Yn wir, mae'r rhai ar y tu allan ac yn is i lawr yr hierarchi yn dod yn rai yr ydym yn dibynnu arnynt i'n croesawu - nid yn unig i'w cartrefi yn y bywyd hwn, ond hefyd yn y 'cartrefi tragwyddol' (Lois Malcolm)

- Fel aelod o gast uchel y Thevar yn India, dewisodd Selvi i ddefnyddio ei chyfoeth a'i safle yn yr union ffordd honno. Agorodd ei chartref i Kasthuri, menyw Dalit oedd wedi ei gwrthod gan ei theulu a'i gwahardd o'i chymuned. 'Rwyf am chwalu unrhyw ffurf ar gaethwasiaeth ac ecsbloetio merched, boed hynny oherwydd cast, dosbarth neu genedl,' meddai. Mae'r llun isod yn dangos Selvi a'i mam gyda Kasthuri a Mathi, ar risiau eu cartref.
- Rhannodd Selvi ei thir i sefydlu fferm gydweithredol i ferched. Mae'r merched yn rhan o EcoVeg. Maent yn cael eu hyfforddi mewn technegau ffermio naturiol, ac yn derbyn cefnogaeth marchnata a logisteg i gychwyn busnes. Mae wedi rhoi i Kasthuri - ac i Selvi hefyd - popeth y mae ei angen: lle y gall pobl sy wedi eu gwahardd adeiladu dyfodol gwell iddynt eu hunain.

Tymor newid?

- Nid yw Duw yn peidio â sylwi ar ormes a chamdriniaeth y rhai ar y cyrion. Anfonodd Elias i gyhoeddi'r gwir wrth y grymus a chyhoeddi barn ar Ahab a'i deulu am eu gweithredoedd. Mae stori hynafol Gwinllan Naboth yn ein hatgoffa o bawb sy'n defnyddio eu grym a'u braint i wahardd a gormesu eraill. Nid yw eu gweithredoedd wedi eu cuddio, dim ots pa mor fawr yw'r ymdrech i wneud hynny.
- Mae Duw yn gweld pan fo grym a braint yn alltudio a gosod pobl ar y cyrion o amgylch y byd heddiw. Fel gyda'r proffwyd Elias, mae prosiect EcoVeg yn dweud y gwir wrth y grymus sy'n ceisio gosod pobl ar y cyrion heddiw yn India. Mae'n gweithredu tymor i newid ac yn rhywbeth y gallwn i gyd fod yn rhan ohono - rhannu ein hadnoddau, ymgrychu am gyfiawnder a gweddio am newid.



Rhoddodd garedigrwydd Selvi gartref i Kasthuri a Mathi.

Tymor y Creu

Pwyntiau pregeth

Mae Tymor y Creu'n cychwyn ar 1 Medi, Dydd Gweddï dros y Greadigaeth, ac yn diweddu ar 4 Hydref, Dydd Gŵyl Sant Ffransis, nawddsant ecoleg mewn sawl traddodiad.

Mae'r nodiadau canlynol wedi eu seilio ar un neu fwy o adrannau yn y Llithiadur Cyffredin Diwygiedig ar gyfer pob Sul yn Nhyrnor y Creu.

Sul 1 Medi

Jeremeia 2:4-13
Hebreaid 13:1-8

Ar y Dydd Gweddï hwn dros y Greadigaeth, efallai mai gweddï o edifeirwch gostyngedig ddylai fod gennym. Bod yn wybyddus o sut y mae ein hunangynhafiaeth a'n hesgeulustod o ewyllys Duw yn ein gwahanu ni oddi wrth ein Crëwr ac oddi wrth weddill y Greadigaeth.

Allwn ni ond dychmygu bod galarnad Duw yn wyneb newid hinsawdd ar yr un raddfa a galarnad Jeremeia yn y darlleniad: 'Mae'r nefoedd mewn sioc fod y fath beth yn gallu digwydd! Mae'n ddychryn! Mae'r peth yn syfrdanol!' - yr ARGLWYDD sy'n dweud hyn. "Mae fy mhobl wedi gwneud dau beth drwg: maen nhw wedi troi cefn arna i, y ffynnon o ddŵr glân gloyw, a chloddio pydewau iddyn nhw'u hunain - pydewau wedi cracio sydd ddim yn dal dŵr!" (Jeremeia 2:12-13.)

Ein gobaiith yw y bydd prosiect EcoVeg yn India yn cynnig llygedyn o obaith a goleuni trwy arddangos ffordd wahanol o fyw mewn perthynas â'r tir a gyda'n gilydd. Mae ffermio'n organaidd yn hytrach na gyda chemegau yn parchu gwerth y tir, fel y disgrifir yn Jeremeia 2:7. A thrwy gynnwys y bobl sy wedi eu gosod ar y cyrion, mae EcoVeg yn modelu'r cariad a anogir yn Hebreaid 13 - un sydd yn gilyddol ac yn peidio gwahaniaethu.

Bydded inni gael ein hysbrydoli a'n herio fel gweithredwyr cariad yn y tymor hwn o newid, ar y Dydd hwn o Weddï dros y Greadigaeth.


**cymorth
cristnogol**

Sul 8 Medi

Philemon 1:1-21

Trwy ddarllen llythyr Paul at Philemon gyda gwydrau 21 ganrif, efallai y bydd thema caethwasiaeth yn y Beibl yn ein hysgwyr. Nid yw Paul yn condemnio caethwasiaeth fel y byddem ni'n dymuno, wrth inni ddarllen hwn heddiw, ond o leiaf mae'n galw ar i'r caethion gael eu trin yn gyfartal. Mae Paul yn gwneud cryn ymdrech i sicrhau fod Onesimus yn cael ei drin fel aelod o'r teulu ac y caiff ei dderbyn yn ôl i gartref Philemon fel petai yn Paul ei hun!

Yn stori Tymor i Newid Selvi a Kasthuri, gwelwn gysgod o'r her hwn i'r drefn bresennol. Efallai nad yw Selvi yn wir droi'r holl drefn cast yn India, ond wrth groesawu'r gwrthodedig fel Kasthuri a Mathi i'w chartref fel teulu, mae'n dangos ffordd arall. Mae hi'n enghraifft o'r tymor o newid sydd â chymaint o angen amdano wrth inni ofalu am y Greadigaeth, gan ein cynnwys ninnau fel pobl.



'Rwyf am dorri'n rhydd oddi wrth unrhyw ffurf ar gaethwasiaeth ac ecsbloetio merched.' : Selvi.

Sul 15 Medi

Luc 15:1-10

Mae darllen neu wrando damhegion am y mab colledig, y ddafad a'r darn arian yn gwneud inni bwylllo yn Nhyrnor y Greadigaeth, gyda'i ffocws ar fioamrywiaeth. Mae'r penawdau'n dweud wrthym sawl rhywogaeth a gollir i bladdwyr a ffermio cemegol, a sawl rhewlif sy'n cilio, sy'n golygu bod cymunedau'n colli eu cyflenwad dŵr. Yng ngoleuni ein stori Diolchgarwch, sy'n canolbwyntio ar y rhai sy wedi eu cau allan yn India, be mae'n cymdeithas ni'n ei golli wrth wahardd pobl ar sail rhyw neu gast?

Wrth weld angerdd y tad, y bugail a'r wraig yn chwilio am yr hyn oedd wedi ei golli, cawn ein hatgoffa bod adfer bioamrywiaeth, rhywogaethau a chyfiawnder hinsawdd yn llawer mwy cynaliadwy a phosibl os ydyw wedi ei wreiddio mewn cariad, cariad nad yw byth yn rhoi i fyny. A'r gobaith y bydd yna achos llawenhau yn y diwedd.

Sul 22 Medi

Gweler nodiadau uchod ar Luc 16:1-13

Sul 29 Medi

Jeremeia 32:1-3a, 6-15

Amos:1a, 4-7

1 Timotheus 6:6-19

Luc 16:19-31

Mae darlleniadau'r llithiadur ar gyfer y Sul hwn yn tynnu sylw at her anghydraddoldeb ac i'r rhai sy'n ceisio eu lles eu hunain dros ofalu am y rhai sy wedi eu gormesu ac ar y cyrion. Maent yn set heriol o ddarlleniadau mewn cyfnod ble rydym yn arferol yn diolch am y digonedd sydd gennym. Pa le sydd i'n meddiannau yn ein calon a'n bywyd? Galwad ydyw i fod yn fodlon yn hytrach na chael mwy. Ac i gyfrannu mewn tymor o newid pryd y gall pawb gael digon a chael 'gafael ar y bywyd sy'n fywyd go iawn' (1 Timotheus 6:19).

Bydd mwy o bwytiau pregeth ar Dymor y Creu ar gael gan 'South African Faith Communities' Environment Institute (SAFCEI) ar dudalennau wythnosol mis Awst.

caid.org.uk/sermon